Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 21 Mehefin 2016 am 10 o'r gloch y bore**
**Y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** Mr Alasdair Kenwright | ) | |
| Mr Gawain Evans | ) | |
| Mr Malcolm MacDonald | ) | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio |
| Mrs Ann Williams | ) | |

**Yn bresennol:**

Dafydd Llywelyn – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)
Simon Prince – Prif Gwnstabl (PG)
Adrian Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
Stephen Hughes – Prif Weithredwr a Swyddog Monitro SCHTh Gogledd Cymru
John Herniman – Swyddog Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Jason Garcia – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)
Vicky Davies – Pennaeth Archwilio, TIAA (VD)
Karen Davies - Cyfrifydd yr Heddlu (KD)
Sarah Welsby – Cyfrifydd yr Heddlu (Arsylwr)
Prif Arolygydd Jon Cummins - (JC) eitem 12 ar yr agenda yn unig
Arolygydd Stuart Bell (SB) – eitem 12 ar yr agenda yn unig
Anne Williams – Swyddog Cymorth, SCHTh

Yn absenoldeb Carys Morgans, Pennaeth Staff, mynychodd Mr Stephen Hughes Prif Weithredwr a Swyddog Monitro SCHTh Gogledd Cymru y cyfarfod fel Swyddog Monitro.

## A46 Ymddiheuriadau ar gyfer absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carys Morgans, Pennaeth Staff, ac Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid.

## A47 Datganiadau o ddiddordeb

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## A48 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2016

Nodwyd bod Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau, yn bresennol yn y cyfarfod, ac yn amodol ar hyn, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

## A49 Materion yn codi

Cynghorodd y PSA y byddai'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ddiweddaru ar ôl cwblhau'r gwaith cyfredol o fewn yr Heddlu a SCHTh.

Darparodd VD eglurhad mewn perthynas â'r diwygiad sydd angen o fewn Siarter yr Archwilwyr Mewnol.

Cadarnhaodd y PSA y byddai angen i Ganllawiau Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru a CIPFA gael eu gweithredu o'r flwyddyn ariannol 2016/17 a bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd yn seiliedig ar yr hen ganllawiau.

Darparwyd cadarnhad bod yr holl gamau gweithredu a ddatganwyd o fewn y cofnodion wedi'u cwblhau.

## A50 Datganiad o Gyfrifon Drafft 2015/16

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb i Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio o'r sefyllfa cronfeydd wrth gefn ariannol ar gyfer 2015/16 a'r materion allweddol a ystyriwyd wrth grynhoi Datganiad o Gyfrifon 2015/16.

Nododd SW y dylai'r cyfrifon gael eu cau erbyn 30 Mehefin 2016. Bu defnydd sylweddol o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn ariannol, a oedd wedi'i drefnu, gyda gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn o £44.9 miliwn o 1 Ebrill 2015 i £32.3 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Roedd crynodeb o daliadau'n cynnwys ad-daliad ychwanegol o £7.0 miliwn o ddyled heb ei thalu a arweiniodd at arbediad blynyddol o £300,000; prynu allan cytundeb menter ariannu breifat o £3.6 miliwn a arweiniodd at arbediad blynyddol o £500,000; £3.3 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gyllideb gyfalaf a refeniw yn ystod y flwyddyn. Mae'r cronfeydd wrth gefn sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn, sef £32.2 miliwn, wedi'u hymrwymo dros y pedair blynedd nesaf i ariannu gwario refeniw gwaelodlin a dyraniadau cyfalaf gyda £4.5 miliwn o arian cyffredinol wrth gefn ar gael ar gyfer digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld.

Tynnodd KD sylw at y cofnodion cyfrifyddu mwy arwyddocaol a materion a brofwyd yn ystod proses cau cyfrifon 2015/16. Tynnodd KD sylw at brosesau cynnar a newidiadau cynyddol a roddwyd yn eu lle o fewn tîm Cyllid yr Heddlu i baratoi ar gyfer bodloni gofynion cau cynharach. Roedd tipyn o waith dal ar ôl i'w wneud, a phwysleisiodd KD maint yr her a wynebir mewn blynyddoedd i ddod. Byddai'r staff sydd ar gael i gyflawni'r gwaith dros gyfnod byrrach yn cael ei adolygu dros y misoedd i ddod.

Cwestiynodd AMSK pa un ai oedd Swyddfa Archwilio Cymru'n fodlon â'r mesurau sydd mewn grym ar gyfer cyfrif am drefniadau ar y cyd a chydweithio o ganlyniad i broblem y llynedd a effeithiodd ar gwblha'r datganiadau. Roedd yr Heddlu wedi derbyn adroddiad drafft a oedd yn darparu ffigurau i weithio arnynt, gyda chofnodion terfynol eto i'w hystyried.

Mewn perthynas â mater cenedlaethol o ran y Nodyn Rhwymedigaeth Ddigwyddiadol, cwestiynodd MM pa un ai a oedd unrhyw drafodaethau ar eiriad derbyniol wedi digwydd rhwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddodd JH esboniad ac roedd MM yn fodlon â'r ymagwedd Gymreig a oedd yn gyson â phob heddlu yng Nghymru.

**Nododd aelodau'r adroddiad.**

## A51 Ystyried Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Prif Swyddog Ariannol (CHTh) a'r Cyfarwyddwr Cyllid (PG) ar gyfer 2015/16

O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio [Cymru] roedd hi'n ofynnol i gyrff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol a chynnwys datganiad sy'n adrodd ar yr adolygiad o fewn y Datganiad o Gyfrifon.

Roedd hi'n ofynnol cynhyrchu dau Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n adlewyrchu'r trefniadau sydd mewn grym ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd hefyd yn cael ei gynnwys yn y Cyfrifon Grŵp.

Roedd y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd wedi'u hysgrifennu yn unol â dogfen CIPFA, Cyflwyno Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol; Adendwm Fframwaith, gyda ffocws arbennig o gwmpas chwe egwyddor graidd llywodraethu da fel y nodwyd yn y ddogfen 'Cyflwyno Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol' ddiwygiedig.

Cyfeiriodd y CA at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Prif Gwnstabl a thynnodd sylw at themâu allweddol ynddo. Roedd yr Heddlu wedi bod yn gweithio i adnewyddu ei weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd ac wedi mewnblannu'r Cod Moeseg yn llawn, gan gefnogi Cod Ymddygiad Staff yr Heddlu, hyfforddiant ymsefydlu a'r weithdrefn afal drwg. Roedd systemau amrywiol mewn grym er mwyn i staff a'r cyhoedd fynegi pryderon a rhoi hyder bod materion yn cael eu trin. Cyfeiriodd y CA ar waith a wnaed i ddatblygu Gallu a Medr yr Heddlu er mwyn bod yn effeithiol o ran llywodraethu. Ar lefel strategol, roedd yr Heddlu wedi ymrwymo i uchafu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth er mwyn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a rhyddhau gallu ymysg swyddogion a staff. Roedd hyn yn cynnwys ehangu darpariaeth data symudol, darpariaeth ffeiliau achos electronig a chyfweld digidol; gyda chynlluniau ar gyfer buddsoddi symiau pellach mewn camerâu fideo a wisgir ar y corff a thelemateg mewn ceir.

Mewn perthynas ag ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliad er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn diogel, tynnodd y CA sylw at yr eitemau allweddol yr ymgymerir â nhw eisoes a chyfeiriodd at ddatblygiadau newydd arfaethedig ar gyfer ymgysylltu.

Cyfeiriwyd at waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a thynnwyd sylw at gynnydd a wneir o ran dwyn y fframwaith lywodraethu ymlaen yn ystod 2015/16 a materion sy'n weddill sy'n derbyn sylw ar hyn o bryd.

Casglodd y CA bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu materion llywodraethu allweddol megis gweithredu rheoli risg a llywodraethu cydweithio, gyda pheth gwaith eto i'w gwblhau o ran parhad busnes. Roedd gwaith wedi'i gychwyn ar gyfer adolygu trefniadau Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer yr Heddlu a'r CHTh.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar gynnwys yr adroddiad.

Yn 2015/16 roedd yr Heddlu wedi profi lefel sylweddol o weithgarwch arolygu AHEM. Sylwodd MM nad oedd y manylion o fewn yr adroddiad yn pwysleisio'r lefel hwn mewn cymhariaeth â'r nifer yr ymgymerwyd â nhw yn 2014/15. Sylwodd MM fod nifer o'r arolygiadau a restrir yn ymwneud â 2014/15 yn hytrach na 2015/16 a gofynnodd am i'r dystiolaeth hon gael ei gwirio.

Mewn perthynas â chynnydd a chamau gweithredu a ystyriwyd o fewn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, cwestiynodd GE werth pob aelod yn derbyn adborth ynghylch datblygiadau o fewn y Grŵp. Cytunodd yr Aelodau y byddai hyn yn fesur defnyddiol.

Mewn perthynas â thorri diogelwch gwybodaeth, cwestiynodd SH pa un ai a oedd hyn yn ymddangos ar Gofrestr Risg yr Heddlu. Cadarnhaodd y CA ei fod yn cael ei gynnwys ar y Gofrestr Risg ynghyd â chamau gweithredu wedi'u trefnu o gwmpas mynd i'r afael â materion TG ehangach.

Cododd trafodaeth ar yr agwedd hunangyfeirio o'r tor a phryder ynghylch lefel y gosb a osodwyd gan atal system hygyrch er mwyn i bobl ddatgelu materion.

Cyfeiriodd y PSA at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd ac at nifer o eitemau y cyfeiriwyd arnynt eisoes gan y CA. Roedd ffurf Datganiad y Comisiynydd ychydig yn wahanol, ond roedd y dogfennau'n cynnwys pob elfen o lywodraethu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn modd strwythuredig i arddangos llywodraethu da. Roedd yr Adolygiad o Effeithiolrwydd wedi'i gynnal gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ac yn rhestri ffynonellau tystiolaeth er mwyn ffurfio barn. Roedd y Canfyddiadau a'r Camau Gweithredu'n crynhoi'r materion llywodraethu mwyaf arwyddocaol a nodwyd ac a gafodd eu trin yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16. Roedd y CA wedi cyfeirio at y materion hyn yn gynharach. Er bod yr Heddlu wedi mewnosod eu cofrestri risg, nododd y PSA bod gan y Comisiynydd waith i'w wneud ar gyfer mewnosod ei gofrestri'n gadarn i'r sefydliad ac roedd yn edrych ar ddatblygu archwaeth risg ar hyn o bryd ar gyfer pob risg ar y gofrestr gorfforaethol.

Cyfeiriwyd at Daliadau Dewisol a dalwyd i staff uwch; mater sydd wedi ei gau yn awr. Tynnwyd sylw at faterion newydd a nodwyd yn ystod y flwyddyn ac roedd nifer o faterion a nodwyd yn flaenorol wedi'u trin yn llwyddiannus a'u cau fel y manylwyd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y trefniadau llywodraethu mewn grym dal yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer y diben o fewn y sefydliad yn unol â'r fframwaith lywodraethu.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas y sylw negyddol yn y wasg mewn perthynas â maint costau adleoli. Cwestiynodd GE bolisïau sydd mewn grym ar draws Awdurdodau Heddlu a maint y sylw negyddol yn y wasg. Cyfeiriodd JH at y polisi blaenorol ac argymhellion yr ymgymerwyd â nhw a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer gwella. Darparodd y PSA eglurhad ynghylch y gofyniad i gyfeirio at y mater hwn o fewn y datganiad.

Tra bod y Datganiad yn cyfeirio at y Cynllun Heddlu a Throseddu, doedd dim cyfeiriad at gyfrifoldebau statudol eraill megis y mater o Adroddiad Blynyddol a oedd yn nodi cynnydd o fewn y flwyddyn ar flaenoriaethau'r Comisiynydd. Awgrymodd SH y dylid ychwanegu cyfeiriad at hyn.

Roedd Cofrestri Risg yr Heddlu a SCHTh yn eitem ar yr agenda yn ddiweddarach ond roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod hi'n briodol dwyn trafodaeth ymlaen ar Risg yn ystod y cam hwn er mwyn cynorthwyo'r deialog ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y CHTh a'r PG.

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu:** | **Gwirio dyddiadau arolygiadau AHEM.** |
| **Cam Gweithredu:** | **Darparu adborth ar ddatblygiadau y tynnwyd sylw ato o fewn y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i holl aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio.** |
| **Penderfyniad:** | **Newid trefn yr agenda er mwyn darparu ar gyfer trafodaeth ar Gofrestri Risg.** |

**A52 Cofrestri Risg yr Heddlu a SCHTh a diweddariad ar drefniadau rheoli risg o fewn Dyfed-Powys**

Ceisiodd MM eglurhad ynghylch natur eithriedig yr eitem agenda hon.

Tynnodd y CA sylw at sensitifrwydd critigol eitemau gweithredol o fewn Cofrestr Risg yr Heddlu.

Bu oedi o ran rheoli Cofrestr Risg yr Heddlu oherwydd salwch. Roedd yr holl ganfyddiadau allweddol o adroddiadau Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd AHEM diweddar wedi'u hychwanegu i'r gofrestr o dan bedwar prif fater. Roedd y Gofrestr Rheoli Risg yn cael ei gefnogi gan y Gofrestr Risg Dynamig a oedd yn cynnwys mwy o fanylion ac yn cael ei chynnal yn ddyddiol. Tynnodd y CA sylw at bob maes a oedd yn cynnwys materion allweddol ar draws yr Heddlu a thynnodd sylw at gynnydd diweddar o ran materion Iechyd a Diogelwch.

Mynegodd MM ei bryder ar yr agweddau Iechyd a Diogelwch a natur eithriedig rhai meysydd penodol a rhoddwyd sicrwydd iddo fod Cofrestr Risg yr Heddlu'n mynd rhagddo fel mater o flaenoriaeth ar y cyd â'r Gofrestr Risg Dynamig.

Yn dilyn arsylwi gan GE, eglurodd y PG y risg a nodwyd o ran cyflenwi gwasanaeth.

Cyflwynodd y PSA Gofrestr Risg Corfforaethol SCHTh a nododd fod angen mwy o waith er mwyn mewnosod y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Dynamig yn llawn. Nododd y PSA fod risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ystadau fawr a oedd yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd yn cael eu rheoli gan y Cyfarwyddwr Ystadau ar y cyd â'r Heddlu o dan ddarn o waith ar wahân.

Roedd cofrestr risg SCHTh yn ffurfio themâu tebyg i'r rhai o fewn cofrestr risg yr Heddlu. Cyfeiriodd y PSA at yr elfen risg mewn perthynas â phenodi Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd a'r newid arfaethedig o ran Prif Gwnstabl; ariannu ac effaith newidiadau sylweddol yn y fformiwla ariannu; swyddogaethau statudol y Comisiynydd a'r gallu i gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Cwestiynodd GE drefniadau mewn perthynas â methiant i gyflenwi dyletswyddau statudol a gyflwynir gan wirfoddolwyr. Rhoddodd y PSA eglurhad ynghylch datrysiadau o ran recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol a dulliau amgen. Roedd y Polisi Gwirfoddolwyr yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn caniatáu hyblygrwydd ychwanegol o ran eu cyflogaeth.

**Penderfyniad:** **Ar ôl archwilio meysydd risg o fewn Cofrestri Risg yr Heddlu a SCHTh, roedd yr Aelodau'n fodlon â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y CHTh a'r PG.**

**Penderfyniad:** **Ystyriodd yr Aelodau'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2015/16 ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar y cyd â Chofrestri Risg SCHTh a'r Heddlu.**

**A53 Ystyried y Polisïau Cyfrifyddu Blynyddol Drafft ar gyfer 2015/16**

Cyflwynwyd y Polisïau Cyfrifyddu Drafft i'r Aelodau i'w cynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon Grŵp ar gyfer 2015/16.

Bydd y Datganiadau o Gyfrifon ar gyfer 2015/16 yn cael eu cyflwyno i Aelodau yng nghyfarfod Pwyllgor Archwilio mis Medi ac roedd y Polisïau Cyfrifyddu Drafft wedi'u paratoi cyn cyfarfod mis Medi er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu ac ystyried yr elfen hon o'r Datganiad o Gyfrifon yn gynt.

Tynnodd y PSA sylw at newidiadau a wnaed i'r polisïau cyfrifyddu drafft ar gyfer 2015/16 gan gyfeirio at derfynu'r fenter ariannu breifat yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

Cwestiynodd GE yr angen i Aelodau weld y Polisïau Cyfrifyddu cyn y Datganiad o Gyfrifon yng nghyfarfod mis Medi. Gwnaed awgrymiadau a chafwyd trafodaeth ar y datrysiad mwyaf priodol a ffordd ymlaen.

Diweddodd yr Aelodau gyda chytundeb i oedi cyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio mis Mehefin er mwyn osgoi creu'r ddogfen hon, ar yr amod nad oedd yr oedi'n effeithio'n andwyol ar feysydd busnes eraill.

Cytunodd y PSA, yn amodol ar ystyried paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol lle mae arsylwadau o'r fforwm yn cael eu bwydo i mewn i'r cyfrifon.

Rhoddodd JH farn ar y mater o safbwynt Swyddfa Archwilio Cymru.

**Cam Gweithredu:** **Ystyried y Polisïau Cyfrifyddu Blynyddol wrth osod dyddiadau cyfarfodydd 2017.**

**Ystyriodd yr Aelodau Bolisïau Cyfrifyddu Drafft 2015/16.**

**A54 Ystyried Adroddiadau Archwilwyr Mewnol 2015/16**

**a) Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Cryno 2015/16**

Rhoddodd y crynodeb ddiweddariad i Aelodau ar y fframwaith Sicrwydd Rheolaethau yn dilyn y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn yn erbyn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16. Roedd yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Cryno'n seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd gan TIAA a sylwadau gan reolwyr a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod. Mae'r adroddiad yn nodi manylion archwiliadau a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y cydbwyllgor archwilio. Roedd perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer yr adroddiadau a gwblhawyd yn 2015/16 yn unol â'r hyn a gynlluniwyd ar wahân i adolygu Parhad Busnes, a ohiriwyd tan 2016/17. Crynhodd VD y monitro ar dargedau a chyfeiriodd at rai ymatebion amserol ac un argymhelliad na dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'i adrodd o'r blaen i'r Pwyllgor. Roedd cynnydd terfynol yn erbyn Cynllun Blynyddol 2015/16 yn dangos bod pob adolygiad wedi'i gwblhau.

Pwysleisiodd MM bwysigrwydd ymatebion amserol ar dargedau. Cyfeiriodd y CA at anghysondeb bach ar deitl yr adroddiad sy'n dweud mai adroddiad Recriwtio ydyw yn hytrach nag adroddiad Recriwtio a Chadw.

**b) Adolygiad Sicrwydd o drefniadau Recriwtio**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer y broses o ddethol a phenodi Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu a threfniadau ar gyfer unrhyw ychwanegiadau i gyflog sylfaenol a ddarperir i Swyddogion Heddlu a Staff Heddlu fel rhan o'u cytundeb cyflogaeth. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried y trefniadau ar gyfer gwneud newidiadau parhaus i gyflogau unigol.

Daeth canfyddiadau allweddol i'r casgliad bod gweithdrefnau digonol mewn grym i sicrhau tegwch a thryloywder. Roedd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd rhesymol gyda thri argymhelliad Blaenoriaeth 2 a chwe argymhelliad arferol; roedd pob un yn ymwneud â chydymffurfio â gweithdrefnau a chadw gwybodaeth ar ffeil yn unol â gweithdrefnau. Cytunodd rheolwyr ar yr holl argymhellion, ac roedd pob un ohonynt wedi'u gweithredu.

Profodd yr adolygiad yn ddefnyddiol ar gyfer yr Heddlu, a darparodd y CA eglurhad ynglŷn â throsglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer recriwtio o adran AD ganolog i'r Uned Cymorth Busnes.

### c) Adolygiad Sicrwydd i Drefniadau Prydlesi

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer prydlesi eiddo gan gynnwys sefydlu, cymeradwyo, awdurdodi, monitro, adnewyddu a chadw prydlesi'n ddiogel. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol gyda thri argymhelliad Blaenoriaeth 2 a thri argymhelliad gweithredol.

Cychwynnodd yr archwiliad ym mis Medi 2015, a chafodd ei ohirio gan yr Heddlu. Cychwynnodd y gwaith eto ym mis Medi 2015 pan oedd gwelliannau'n amlwg yn y trefniadau ar gyfer goruchwylio prydlesi eiddo'n effeithiol.

Roedd yr argymhellion Blaenoriaeth 2 yn ymwneud â gweithdrefnau cyfyngedig sydd mewn grym a diffyg gwybodaeth ynghylch lleoliad rhai prydlesi eiddo.

Roedd rheolwyr yn fodlon â'r argymhellion a'r dyddiadau gweithredu penodol.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y PSA gylch gorchwyl y Cyfarwyddwr Ystadau, sef materion strategol ystadau a goruchwyliaeth ar ran y Comisiynydd a strwythur a chyfrifoldebau a'r gwaith beunyddiol o redeg ystadau'r Heddlu sy'n syrthio o dan y Prif Gwnstabl. Pwysleisiodd y CHTh y berthynas gydweithio agos rhwng y CY a'r CA ar lefel Bwrdd Ystadau a'i fodlonrwydd ynglŷn â'r trefniadau a'r perthnasau sydd mewn grym. Cyfeiriodd y CHTh at waith parhaus ar gyfer cyflawni gwell rhyngwynebu llywodraethol rhwng SCHTh a'r Heddlu. Pwysleisiodd y PG bod y ffocws ar berthnasau gweithio'n allweddol.

### ch) Adolygiad dilynol 2015/16

Sefydlodd yr adolygiad dilynol y camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr mewn perthynas ag argymhellion Blaenoriaeth 1 a 2 a oedd yn codi o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Bu cynnydd rhesymol o ran cwblhau'r argymhellion, gyda 53% wedi'u gweithredu. Rhoddwyd dyddiadau targed diwygiedig i 47% o'r argymhellion a fydd yn cael eu monitro a'u riportio o fewn y dilyniant interim ym mis Medi. Tynnodd VD sylw at un argymhelliad Blaenoriaeth 1 sy'n aros mewn perthynas â Pharhad Busnes.

Mynegodd AW ei phryder ynglŷn â'r llithriad a brofwyd o ran gweithredu rhai dyddiadau targed gwreiddiol a osodwyd. Sicrhaodd y CA yr Aelodau bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cynllunio Parhad Busnes.

Pwysleisiodd yr aelodau'r angen ar gyfer cau adolygiadau hŷn erbyn y cyfarfod nesaf gan fod rhai'n aros ers nifer o flynyddoedd. Roedd yr aelodau'n gwerthfawrogi bod rhai agweddau penodol o'r adolygiadau'n llifol a pharhaus, ond pwysleisiodd bwysigrwydd dyddiad gorffen. Rhoddodd VD esboniad pellach mewn perthynas â chynnydd o ran adolygiadau hŷn.

**Cam gweithredu: TIAA i roi diweddariad ynghylch cwblhau argymhellion sy'n aros yn y cyfarfod pwyllgor ym mis Medi.**

**d) Adroddiad Blynyddol 2015/16**

Roedd yr Adroddiad Blynyddol gan TIAA yn pennu bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi'i gyflawni er mwyn caniatáu ar gyfer canlyniad rhesymol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli risg, rheoli a llywodraethu Heddlu Dyfed-Powys. Penderfynodd TIAA bod gan Heddlu Dyfed-Powys brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol er mwyn rheoli cyflawni ei amcanion.

Crynhodd VD gynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Cwestiynodd AMSK yr amod i'r adroddiad fod yn adroddiad wedi'i lofnodi ac am i rai diwygiadau o fewn y cynnwys gael eu hystyried.

**Cam gweithredu: Bod TIAA yn ailgyhoeddi Adroddiad Blynyddol diwygiedig wedi'i lofnodi.**

**A55 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Cryno 2016/17**

Rhoddodd y crynodeb ddiweddariad i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar gynnydd y gwaith o 8 Mehefin 2016 ac mae'n nodi cynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17. Rhoddodd VD eglurhad ynghylch rhai newidiadau a wnaed i'r chwarteri arfaethedig. Roedd cynnydd da wedi'i wneud, gydag un adroddiad wedi'i gyhoeddi i gam ddrafft. Roedd cynnydd ynghylch Parhad Busnes eisoes wedi'i drafod a thynnodd VD sylw at beth gwaith gwrthgilio a wnaed mewn perthynas â dyddiadau gweithredu a'r posibilrwydd o ganlyniad terfynol erbyn y cyfarfod nesaf.

**A56 Derbyn Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016**

Tynnodd y CA sylw at feysydd allweddol o fewn y cofnodion, gan gynnwys datblygiad Strategaeth Cydweithio ar gyfer yr Heddlu.

Cymeradwyodd MM bresenoldeb aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar ddiwedd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

**Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor gofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016.**

**A57 Ystyried adroddiad blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Hwn oedd y trydydd adroddiad blynyddol ar gyfer Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys. Diolchodd y PSA i Helen Morgan-Howard am gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2015-16. Adran a oedd yn aros ar yr adroddiad oedd cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer 2016/17. Ar ôl ei gwblhau, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno ar ffurf sgleiniog, fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd trafodaeth ar flaenoriaethau ar gyfer 2016/17 yn cynnwys adroddiadau AHEM; trefniadau llywodraethu corfforaethol, cofrestri risg ac adolygiad rheolaidd o argymhellion dros ben sy'n hwyr. Cynigodd VD gyfle i gael golwg ar y porthol ar-lein ar gyfer diweddariadau ar argymhellion y cytunodd Aelodau iddo os yn briodol. Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision unigolion cyfrifol yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio er mwyn rhoi diweddariadau ar argymhellion Blaenoriaeth 1. Hefyd, cafwyd trafodaeth o gwmpas pwysau adnoddau yn ystod arolygiadau AHEM a chyfathrebodd Aelodau eu cefnogaeth a ffocws ar gyfer Gwerth am Arian.

**Penderfyniad: Gwahodd unigolion priodol i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio er mwyn rhoi diweddariad ar unrhyw argymhellion Blaenoriaeth 1 sy'n weddill ers amser hir.**

**Cam gweithredu: Cynnwys y blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 fel y trafodwyd.**

**A58 Diweddariad ar weithgarwch AHEM**

Rhoddodd JC ddiweddariad byr i aelodau ar y gweithgarwch arolygu AHEM diweddaraf.

Roedd AHEM wedi bod gyda'r heddlu ers 4 diwrnod ar gyfer y broses arolygiad PEEL blynyddol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu o ran Effeithlonrwydd, Cyfreithlondeb ac Arweinyddiaeth a chrynhodd JC brif bwyntiau'r arolygiad. Roedd cynllun gweithredu ar gyfer yr Heddlu wedi'i greu ar y 24 cam gweithredu penodol a ddarparwyd gan AHEM ac roedd sesiwn wybodaeth wedi'i gynnal gyda'r tîm Prif Swyddogion. Disgwylir y bydd yr adroddiad llawn yn cael ei ryddhau ym mis Rhagfyr, ac esboniodd JC yr ymagwedd ragweithiol a gymerwyd gan yr Heddlu o ran llunio'r cynllun gweithredu'n fuan ar ôl yr archwiliad a chyn yr adroddiad llawn.

Eto, disgwyliwyd i'r Heddlu ddioddef cyfnod trwm o arolygu gydag 19 archwiliad wedi'u cyflawni dros y 18-24 mis diwethaf. Byddai'r archwiliad PEEL nesaf ar Effeithlonrwydd yn cael ei gynnal yn yr hydref gydag archwiliadau o Ddalfeydd, Cywirdeb Data Trosedd, Cam-drin Domestig a Throseddau Trefnedig Difrifol/Gwrthderfysgaeth i ddilyn. Nid yw'r dyddiadau'n hysbys eto.

Nododd y PG bod y gwaith a wnaed gan y tîm adolygu o ran paratoi'r heddlu ar gyfer yr arolygiadau wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol.

Cwestiynodd GE pa un ai a oedd nifer uchel yr arolygiadau'n cael eu profi ar draws pob heddlu. Cadarnhaodd JC nad oedd yn unigryw i Ddyfed-Powys.

Cyfeiriodd JC at y rôl Arweinydd Cyswllt yr Heddlu pan ofynnwyd pa un ai a oedd gan yr Heddlu barhad fel rhan o'r paratoadau ar gyfer arolygiadau AHEM.

Cadarnhaodd JG bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwrdd ag Arweinydd Cyswllt yr Heddlu er mwyn atal unrhyw waith dyblygu.

Sylwodd MM ar yr adroddiadau negyddol yn y wasg o ran adroddiadau AHEM a'r diffyg sylw ynghylch canlyniadau cadarnhaol.

Esboniodd y PG bod angen peth gwaith gyda'r cyfryngau unwaith y bydd yr adroddiadau drafft wedi'u cynhyrchu.

Canmolodd y Pwyllgor y gwaith a gyflawnwyd er mwyn ymdrin â'r sefyllfa anodd o gwmpas arolygiadau AHEM.

**A59 Unrhyw fusnes arall**

Dim

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:45am**

**Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 20 Medi 2016.**